

Cyfarfod Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd
Crynodeb o'r Cyfarfod
18 Mai 4.30pm Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Cadeirydd, Y Cynghorydd
 Huw Thomas (Cadeirydd, Y
 Cyng. HT)
 Antwn Owen Hicks (AOH)
 Y Cynghorydd Peter
 Bradbury (Y Cyng. B)
 Daniel Minty (DM)
 Gavin Allen (GA)
 Jon Fox (JF)
 Adrian Field (AF)
 Gerwyn Evans (GE)

Guto Brychan (GB)
 Helia Phoenix (HP)
 Heather Brown (HB)
 Joe Jones (JJ)
 Jonathan Day (JD)
 Bethan Elfyn (BE)
 Liz Hunt (LH)
 Lucy Squire (LS)
 Ruth Ballantyne (RB)
 Michael Garvey (MG)
 Nick Saunders (NS)

Phil Sheeran (PS)
 Ruth Cayford (RC)
 Sarah Hemsley Cole (SHC)
 Tumi Williams (TW)

Ymddiheuriadau:
 Andy Warnock

1. Cyflwyniad y Cadeirydd, Y Cyng. Huw Thomas	
<ul style="list-style-type: none"> (Cadeirydd, Y Cyng. HT) Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig ac yn ddefnyddiol dod â'r bwrdd at ei gilydd ar gyfer y cyfarfod arbennig hwn i drafod yr effaith y mae argyfwng Covid-19 yn ei chael ar y sector cerddoriaeth. O ystyried yr argyfwng presennol, byddwn y cyfarfod hwn yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar heriau'r pandemig ac yn trefnu cyfarfod ar gyfer dyddiad diweddarach i ddelio â busnes ehangach y Bwrdd Cerddoriaeth. 	<p>Camau Gweithredu: Cymeradwyo Crynodeb o'r Cyfarfod Blaenorol</p>
2. Problemau'r Sector	
<ul style="list-style-type: none"> (Cadeirydd, Y Cyng. HT) Byddem yn annog Aelodau'r Bwrdd i rannu unrhyw adroddiadau y gallent fod yn ymwybodol ohonynt gyda Swyddogion y Cyngor, a all wedyn eu rhannu gyda gweddill y grŵp a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â llunwyr polisi perthnasol. Rydym yn croesawu cynnig Lucy Squire, Aelod o BCC, i rannu gwaith ymchwil y mae wedi hi wedi bod yn gweithio arno gyda Chydweithwyr PDC yn ymateb i Covid-19. (LS) Tynnodd Lucy sylw at rywfaint o'r gweithgarwch ar-lein y mae myfyrwyr PDC wedi bod yn ei wneud, gan gynnwys digwyddiadau ar-lein gyda chyrhaeddiad helaeth. Cynigiodd Lucy fyfyrwyr PDC fel adnodd i gefnogi'r sector ar yr adeg heriol hon. 	<p>Cam gweithredu: Aelodau BCC i rannu adroddiadau, data ac arfer gorau o ran cymorth ar gyfer gweithgarwch cerddoriaeth yn ystod y pandemig.</p>
3. Materion Lleoliadau Llaur Gwlad	
<ul style="list-style-type: none"> (GB) Ers cau, nid yw lleoliadau cerddoriaeth yn ennill unrhyw incwm mwyach. Mae'r rhan fwyaf bellach yn dibynnu ar arian allanol (hyd yma - Cymru Greadigol, y Grant Ardrethi Busnes a'r cynllun ffyrlo) ac efallai y bydd gan rai busnesau gronfeydd wrth 	<p>Cam gweithredu: Parhau i fonitro'r sefyllfa a lobïo am gymorth i'r sector</p>

<p>gefn i'w helpu i barhau i redeg, ond nid yw'r dyfodol yn hysbys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd nid oes strategaeth glir ar waith ar gyfer pryd y gallai'r sefyllfa newid i'n diwydiant ac nid ydym yn disgwyl i hyn newid unrhyw bryd yn fuan. • Ar hyn o bryd, nid ydym yn gweld sut y gallwn weithredu os bydd mesurau ymbellhau cymdeithasol yn parhau ar ôl dod â'r cyfnod clo i ben. • Byddai llai o gapasiti hefyd yn ei gwneud yn anodd iawn i ni agor a bod yn hyfyw yn economaidd. • (JF) O safbwynt Music Venue Trust (MVT) mae lleoliadau'n symud o argyfwng i argyfwng. Rydym yn cefnogi nifer o agweddau ond mae angen arian i gynnal y sector. Mae angen ymrwymiad gwleidyddol arnom. • Mae'r MVT wedi casglu ynghyd dîm o arbenigwyr blaenllaw ar faterion tenantiaeth, trafodaethau rhent a morgais, cynllunio, trwyddedu, materion cytundebol cyfreithiol a mwy. Bydd y Gwasanaeth Argyfwng i Leoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad hwn yn helpu i ddatrys problemau y mae lleoliadau'n eu hwynebu drwy gysylltu lleoliadau â'i dîm o arbenigwyr yn y diwydiant. • (JF) Mae'r MVT hefyd yn galw ar y diwydiant cerddoriaeth, y sector diwylliannol a cherddorion mwyaf llwyddiannus y DU i ddod at ei gilydd i greu cronfa ymladd gwerth £1 miliwn i atal cannoedd o Leoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad ledled y DU rhag cau'n barhaol. Mae Music Venues Trust hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar 'REVS' (Reopen Every Venue Safely). Dyma ymateb y sector lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad (LICLIG) i Argyfwng Covid 19 sy'n ymdrin yn benodol â'r broses lle gallai tua 700 o Leoliadau Cerddoriaeth Llawr Gwlad o fewn Music Venues Alliance (MVA) ddeillio o'r cyfyngiadau presennol ar agor a masnachu yn ôl yr arfer tra'n diogelu'r cyhoedd yn llawn. 	<p>Cam gweithredu: Cyngor Caerdydd i gefnogi Ymgyrchu a gwaith YLIC</p> <p>Cam gweithredu: Ymchwilio i weithgarwch cerddoriaeth ar-lein</p>
<p>4. Heriau Cerddorion a Digwyddiadau Cerddoriaeth</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • (RB) Yn ôl ymchwil gan The Musicians Union (MU), mae un o bob pum (19%) cerddor yn ofni y bydd yn rhaid iddo roi'r gorau i'w yrfa - Nid yw dau o bob pump (38%) yn gymwys ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol y Llywodraeth. Mae MU yn galw ar frys am gymorth mwy ystyrlon i'r rhai yr effeithir arnynt. • Mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar aelodau, mae rhai wedi gallu cynnal addysgu ar-lein, ond mae'r rhai sy'n syrthio rhwng y cynlluniau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yn profi caledi sylweddol. • Mae MU yn cydlynu cyngor i gefnogi cerddorion. Gall unrhyw un gofrestru ar gyfer diweddariadau. Mae MU wedi sefydlu cronfa caledi. Mae MU yn cymryd rhan mewn nifer o ymgyrchoedd a chynlluniau cefnogi cerddorion. • Mae MU yn annog aelodau i godi'r un gost am wersi cerddoriaeth ar-lein. Mae canlyniadau addysgu ar-lein yn dda iawn. 	

<ul style="list-style-type: none"> • Nododd (SC) ei bod wedi bod yn gweithio ar y gwaith o droi Stadiwm Principality yn ysbyty maes Covid-19, gan dynnu sylw at y ffaith bod gan y diwydiant digwyddiadau gymaint o sgiliau trosglwyddadwy gwahanol. • (SC) Mae gan y sector digwyddiadau masnachol lawer o heriau. Mae digwyddiadau Gyrru i Mewn yn Ewrop yn boblogaidd ac mae amrywiaeth o syniadau y gallai eu hystyried fod o werth. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw Digwyddiadau Cerddoriaeth yn ddiogel nac yn hyfyw ar hyn o bryd. Mae llawer o bryder o ran y pandemig yn parhau i'r flwyddyn nesaf. • (NS) Rydym wedi symud ein holl wyliau i fis Mehefin a mis Gorffennaf y flwyddyn nesaf. Rydym wedi parhau i drefnu digwyddiadau rhithwir, gan helpu i ddiddanu pobl gartref ac adeiladu ymwybyddiaeth o frandiau. • Mae (MG) yn pwysleisio y gall rhai agweddau ar addysg Cerddoriaeth ddigwydd o hyd, er enghraifft yn rhithwir ac mae llawer o enghreifftiau da o addysgu rhithwir i unigolion a grwpiau sy'n digwydd. • Mae (MG) yn awgrymu treulio peth amser yn meddwl am y talentau yn yr arfaeth a sut y gallwn barhau i feddwl am ein perfformwyr a'n cynulleidfa yn y dyfodol, hyd yn oed os yw lleoliadau ar gau ar hyn o bryd. • (MG) Sut y gallai rhywfaint o fuddsoddi ac ymdrech o ran talent - drwy gomisiynu; addysgu; cymorth rhwydwaith ac ati baratoi'r sector yn well ailgydio ynddi a bod yn barod ar gyfer dyfodol newydd pan ddaw. • (BE) Mae BBC Cymru Wales wedi cyflwyno Gorwelion ar-lein. Ymddengys mai ffrydiau byw ar Instagram yw'r dull ymgysylltu mwyaf poblogaidd ar-lein. • Mae angen mwy o ymchwil arnom ar ymgysylltu ar-lein, i ystyried y cyfleoedd a'r problemau • (HP) Dylem harneisio'r diddordeb newydd mewn gweithgarwch ar-lein, mae hyn wedi ehangu ymgysylltiad ac wedi annog cynulleidfaoedd i brofi cerddoriaeth newydd. • Nododd (Y Cyng. PB) sut mae pobl yn ailddarganfod cerddoriaeth yn ystod y cyfnod cloi, a sut mae'n helpu gyda lles yn ystod y pandemig a dylid cydnabod hyn. 	
<p>5. Diweddariad ar Ŵyl Dinas Cerddoriaeth Caerdydd.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • (JD) Oherwydd yr Heriau Covid-19 presennol, mae Llywodraeth Cymru bellach yn wynebu heriau enfawr o ran y digwyddiadau mawr byw y mae'n eu hariannu wrth symud ymlaen, mae'n debygol y bydd angen arian i gefnogi heriau blaenoriaethol. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac yn cynllunio'n unol â hynny. 	<p>Cam gweithredu: Gweithio gydag Uned Digwyddiadau Mawr LIC i gynllunio Gŵyl Dinas Cerddoriaeth Caerdydd pan fydd canllawiau a sefyllfa iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny.</p>
<p>6. Diweddariad Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddodd (AOH) diweddariad i'r grŵp ar Gronfa Sefydlogi Artistiaid Unigol CCC sy'n agor ar 29 Mai a chymorth CCC hyd 	<p>Cam gweithredu: Gweithio gyda Cymru Greadigol i</p>

<p>yma</p> <ul style="list-style-type: none">• Daeth (GE) â grŵp Cymorth Cerddoriaeth CG at ei gilydd. Cafodd y gronfa Gerddoriaeth ei chreu ar gyfer ymateb cyflym ac mae'n gweithio gyda'r sector.• Bydd Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yr wythnos nesaf. Mae angen i ni ystyried pa gymorth y gallwn ei roi os bydd y pandemig yn parhau.	<p>ystyried cymorth i'r sector.</p>
---	--